Neuadd Tref yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug. CH71AB E-bost: towncentremanager@moldtowncouncil.org.uk Ffôn: 01352 751819

# Materion Canol y Dref

*............... newyddlen afreolaidd oddi wrth Reolwyr Canol Tref yr Wyddgrug*

January 2016

***Y Gwyliau… dechrau araf gyda'r tywydd garw!***
*Ar ôl siarad â llawer o wahanol fasnachwyr o bob rhan o'r dref erbyn hyn, eu barn at ei gilydd ynghylch masnach yn ystod y gwyliau oedd "Dim yn rhy ddrwg a gallai fod wedi bod yn waeth". Gwnaeth llawer o siopau'n dda, er bod amryw'n dweud iddi fod yn anodd. Fodd bynnag, at ei gilydd mae'n ymddangos bod yr Wyddgrug yn dal ei thir.*

*Mae gwaith ar y gweill erbyn hyn i wella'r arwyddion i'r dref ac ynddi, gydag arian nad oedd ar gael cyn i ni allu creu cronfa fuddsoddi'r dref o'r taliadau meysydd parcio oedd i'w defnyddio ar gyfer prosiectau seilwaith ymwelwyr. Yn anffodus mae'r Cyngor Sir wedi tynnu'n ôl y rhan fwyaf o'r cyllid hwn ar gyfer yr Wyddgrug wrth sefydlu taliadau parcio ledled y Sir er bod y dref yn dal i gyfrannu mwy nag unman arall at gronfa Cyngor Sir y Fflint. Mentrau eraill sy'n defnyddio'r un cyllid yw'r mannau Hysbysu Ymwelwyr a gafodd dderbyniad da, pyrth newydd i'r dref, diweddariad o fap y dref, ailwampio maes parcio Stryd Newydd, peiriant glanhau strydoedd unswydd "Yr Wyddgrug", goleuadau stryd newydd ac ychwanegol gyda'r gweddill yn mynd tuag at wella llwybrau troed.*

*Bydd llawer yn gwybod fod Trethi Busnes yn cael eu hadolygu ledled Gogledd Cymru o'r diwedd a'r canlyniadau'n dechrau ymddangos, er na fydd y manylion yn dod yn gyhoeddus cyn i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo. Rwyf wedi llwyddo i gael y prif Swyddog Prisio ar gyfer y Gogledd i ymweld â'r dref, gyda'r VOA, fydd yn esbonio beth ddaw i'r Wyddgrug a'r rhanbarth yn y dyfodol mewn grŵp Masnachwyr arbennig o Fforwm Busnes yr Wyddgrug yn Neuadd y Dref. Rwy'n gobeithio y daw cymaint o fusnesau ag y bo modd i gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf i'r agwedd bwysig hon ar fasnachu yn y dref a rhannu eu barn ar hyn a materion pwysig eraill.*

*Diolch Dave Hill – Rheolwr y Dref*

MBF Mold Business Forum

## Cyfarfod o Grŵp Masnachwyr yr Wyddgrug – Newidiadau i'ch Trethi Busnes

**(5.30pm Dydd Iau 18fed Chwefror 2016 yn Neuadd Tref yr Wyddgrug)**

Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cynnal cyfarfod o Grŵp Masnachwyr Fforwm Busnes yr Wyddgrug yn **Neuadd y Dref am 5.30pm, ar ddydd Iau 18fed Chwefror** i gael gwybod manylion yr adolygiad diweddar o Drethi Busnes yr Wyddgrug.

Mae'r achlysur hwn yn agored i HOLL fasnachwyr a busnesau yn yr Wyddgrug pa un ai ydynt yn genedlaethol, rhanbarthol neu annibynnol; yn siopau, sector gwasanaeth neu letygarwch; ac mae'n gyfle i fusnesau gael y diweddaraf, rhannu pryderon, ac archwilio mentrau ar y cyd fydd yn helpu iddynt symud ymlaen yn yr Wyddgrug.

Aeth saith mlynedd heibio bellach ers yr adolygiad diwethaf o Drethi Busnes ac mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi comisiynu adolygiad o Drethi Busnes ledled Cymru trwy Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae VOA wedi cwblhau'r Wyddgrug o ran siopau ac mae ran o'r ffordd trwy edrych ar swyddfeydd a pharciau busnes / diwydiannol. Mae Mr Richie Roberts, y Prif Brisiwr dros Gymru, wedi cytuno i ddod i'r Wyddgrug ar y dyddiad uchod i ddweud wrth fasnachwyr am ei ganfyddiadau hyd yma ac argymhellion yn deillio o'r adolygiad. Ni fydd mewn sefyllfa i roi manylion achosion penodol, ond bydd yn gallu rhoi cipolwg cynnar ar beth sy'n digwydd a'r cyfeiriad y gall perchenogion busnesau ddisgwyl i gostau busnes pwysig hyn eu cymryd. Bydd cyfle i Holi ac Ateb.

Allwch chi fforddio peidio â bod yno?

**Cadw yn y cylch….**
Tra na fydd dim yn gallu disodli Materion Canol y Dref …….. mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ceisio cysylltu â holl bobl yr Wyddgrug trwy amrywiol ffurfiau a gallwch gael hyd i Gyngor y Dref yn www.moldtowncouncil.org.uk ar Weplyfr, Trydar ac, os ydych eisiau cael eich cynnwys mewn cylchrediad e-bost rheolaidd, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at Jane Evans yng Nghyngor y Dref: supportofficer@moldtowncouncil.org.uk .

Visit Mold

cittaslow mold cittaslow yr wyddgrug

## Dawns-ginio Elusen y Maer

The Celtic Arms, Parc Gwledig Llaneurgain, Llaneurgain, CH7 6WA

Mae llawer o fusnesau'r Wyddgrug yn mwynhau mynychu Dawns-ginio flynyddol y Maer sydd at Gymdeithas Strôc Cymru eleni. Mae tocynnau'n £34.00 yr un am ginio 3 cwrs, adloniant byw ac arwerthiant elusennol mawr gyda raffl wych. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn www.moldtowncouncil.org.uk Bydd cynigion addas eitemau arwerthiant a gwobrau raffl yn cael eu gwerthfawrogi – cysylltwch â Jane Evans, Swyddog Cymorth Cyngor y Dref ar 01352 758532 neu e-bostiwch supportofficer@moldtowncouncil.org.uk

## Glanhau Mawr y Gwanwyn yn yr Wyddgrug

Bydd glanhau mawr blynyddol y dref yn digwydd unwaith eto dros benwythnos dydd Gwener 18fed i ddydd Llun 21ain Mawrth 2016, pan fydd cannoedd o wirfoddolwyr yn helpu twtio'r dref at yr haf. Bydd llawer o fasnachwyr yn cymryd rhan a'r gobaith yw y bydd nifer tebyg yn y dref yn ymuno eleni trwy adfywio blaen siopau, glanhawyd ffenestri, trwsio cwteri. Efallai hefyd y bydd Springy, masgot y Glanhau Mawr, yn ymweld â chi!

## Rasys Crempog

Bydd rasys crempog blynyddol y dref yn cael eu cynnal o 2pm ymlaen ddydd Mawrth, 9fed Chwefror yn Sgwâr Daniel Owen. Mae categori arbennig (a gwobr) i fusnesau'r dref gynnig yn y darn rhyfeddol hwn o hwyl draddodiadol.

Mae angen timau o bedwar (ymunwch â siop arall) ac ni fydd yn cymryd mwy nag 20 munud o'ch amser – ac rydym hyd yn oed wedi cael sylw ar y teledu! Rhagor o fanylion a ffurflenni archebu i'w cael gan Jane Evans o Gyngor Tref yr Wyddgrug – gwelwch www.moldtowncouncil.org.uk

HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE
Gogledd Cymru diogelach | A safer North Wales

Mae'r heddlu eisiau diolch am y cymorth a chefnogaeth a gafwyd gan fusnesau'r dref yn ystod yr archwiliad diweddar i grŵp mawr o lanciau lleol oedd yn gyfrifol am ymosodiadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a lladradau. Erbyn hyn mae deuddeg o droseddwyr yn wynebu ymddangosiadau yn y llys yn ystod y misoedd a ddaw ac, yn fwyaf pwysig, mae camau'r heddlu wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y digwyddiadau sy'n cael eu hysbysu am y grŵp hwn gan fasnachwyr y dref. Gwnewch eich gorau i fynychu cyfarfod misol cynllun Gwarchod Siopau'r Wyddgrug yn Neuadd y Dref am 10am (mae'n para am awr fan bellaf) ar ail ddydd Mawrth pob mis – cyfarfod nesaf dydd Mawrth, 9fed Chwefror. Allwch chi ddim ond elwa!

## Yr Achlysuron Nesaf

**Dydd Mawrth Ynyd 9fed Chwefror – Rasys Crempog Blynyddol ar Sgwâr Daniel Owen**
Bydd rasys crempog blynyddol y dref yn cael eu cynnal o 2pm ymlaen ddydd Mawrth, 9fed Chwefror ar Sgwâr Daniel Owen. Cofrestrwch ar y diwrnod o 1.30pm ymlaen. Mae angen timau o bedwar (ymunwch â siop neu fusnes arall) ac ni fydd ond yn cymryd 20 munud o'ch amser. Pob hwyl yn troi crempog! Caiff y crempog a gwobrau eu darparu'n garedig gan Spavens.

**Dydd Iau 18fed Chwefror 5.00pm tan 8.00pm – Fforwm Masnachwyr yn Neuadd y Dref, Newidiadau i'ch Trethi Busnes**
Mae'r achlysur hwn yn agored i HOLL fasnachwyr a busnesau yn yr Wyddgrug pa un ai ydynt yn genedlaethol, rhanbarthol neu annibynnol; siopau, sector gwasanaeth neu letygarwch; ac mae'n gyfle i fusnesau gael diweddariadau, rhannu pryderon, a thrafod mentrau ar y cyd fydd yn eu helpu i symud ymlaen yn yr Wyddgrug.

**Dydd Gwener 19eg Chwefror – Cinio, Dawns ac Arwerthiant Elusen Maer yr Wyddgrug**
Dydd Gwener 19eg Chwefror yn y Celtic Arms yn Llaneurgain, tocynnau ar werth am £34.00 sy'n cynnwys pryd 3 chwrs ac adloniant – bob amser yn noson arbennig. Mae'r holl dderbyniadau'n mynd at elusen y Maer, Cymdeithas Strôc Cymru, gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i helpu'r rhai sydd wedi byw drwy strôc yn y gymuned leol.

**27ain Chwefror – Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi**
Bydd cerddoriaeth, perfformiadau a chelf a chrefft wedi'u trefnu gan Menterfflint yn cael ei gynnal ar Sgwâr Daniel Owen ac yn y Llyfrgell.

**29ain Chwefror i 13eg Mawrth – Pythefnos Masnach Deg**
Hyrwyddo defnyddio bwyd Masnach Deg yn y dref. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan Masnach Deg
www.fairtrade.org.uk/en/get-involved/current-campaigns/fairtrade-fortnight-2016

**1af Mawrth – Beirniadu cystadleuaeth addurno ffenestr ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, sy'n cael ei drefnu gan Menterfflint –** rhagor o fanylion i ddilyn

**Dydd Gwener 18fed i ddydd Llun 21ain Mawrth – Glanhau Mawr yr Wyddgrug**
Bydd glanhau mawr blynyddol y dref yn digwydd unwaith eto dros benwythnos dydd Gwener 18fed i ddydd Llun 21ain Mawrth 2016. Os hoffech gymryd rhan, cofiwch gysylltu â ni ar 01352 758532

Visit Mold

cittaslow yr wyddgrug